**Y Pwyllgor Busnes**

**Cofnodion BC(3)09-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 9 Hydref 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Yr Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Yr oedd Marion Stapleton wedi anfon ymddiheuriad am ei habsenoldeb. Croesawodd y cadeirydd Mandy Lewis, a fyddai'n cynrychioli Marion Stapleton.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)08-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 2 Hydref 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion gerbron y pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)09-07(p1)**

3.1 Nododd y pwyllgor y busnes ar gyfer 9 a 10 Hydref 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ na fyddai'r datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar strategaeth datblygu hawliau dynol, a oedd i'w draddodi ddydd Mawrth, yn digwydd bellach. Dywedodd y byddai datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi ddydd Mawrth.

3.3 Cytunodd y pwyllgor nad oedd angen cynnal cyfnod pleidleisio ddydd Mercher, ac felly cynhelir pleidlais ar ddiwedd pob eitem o fusnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth - BC(3)09-07(p2)**

3.4 Nododd y pwyllgor amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)09-07(p3)**

3.5 Penderfynodd y pwyllgor ar yr amserlen 3-wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.6 Dywedodd y cadeirydd fod cais wedi dod i'r pwyllgor drefnu trafodaeth ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Jonathan Morgan ar iechyd meddwl. Dywedodd William Graham y byddai'n dda pe gellid cynnal y drafodaeth cyn gynted ag y bo modd, ac awgrymodd 17 Hydref fel dyddiad. Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig.

**4. Unrhyw fusnes arall**

4.1 Dywedodd y cadeirydd ei fod wedi cael llythyr oddi wrth gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ynglŷn â sefydlu pwyllgor i ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ailedrych ar y mater yn ystod ei gyfarfod

nesaf, yn dilyn ymgynghoriad ar yr aelodaeth ac ystyriaeth o'i gylch gorchwyl.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**